Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Y Gelli
# Ffordd Bethel
# Caernarfon
# Gwynedd
# LL55 1DU

## Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Y Gelli

Lleolir Ysgol Y Gelli ar gyrion tref Caernarfon, yng Ngwynedd. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol. Mae 228 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 30 oed meithrin rhan-amser.

Mae ychydig dros 6% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

Mae hyn yn sylweddol is na'r canran cenedlaethol, sef 19%. Mae 87% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref ac ychydig iawn sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae ychydig iawn o ddisgyblion o dan ofal yr awdurdod lleol. Mae'r ysgol wedi adnabod 27% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ond ychydig iawn sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae'r canran sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ychydig yn uwch na'r canran cenedlaethol, sef 21%.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Ebrill 2017 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Medi 2010.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae Ysgol Y Gelli yn gymuned hapus, ofalgar a chynhwysol lle mae’r disgyblion yn teimlo’n ddiogel ac yn mwynhau eu profiadau dysgu mewn awyrgylch cwbl Gymreig. Mae’r disgyblion yn siarad Cymraeg yn hyderus a naturiol. Mae awyrgylch weithgar iawn yn yr ysgol ac mae cwrteisi a hynawsedd y disgyblion, ynghyd â’r rhyngberthynas gefnogol sydd rhyngddynt a’r staff, yn nodweddion cryf. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn ystod eu cyfnod yno.

O dan arweiniad cadarn y pennaeth, sefydlwyd nifer o strategaethau effeithiol er mwyn adeiladu ar gryfderau blaenorol yr ysgol. Mae nifer o elfennau eisoes wedi gwreiddio’n dda ac yn dechrau dwyn ffrwyth fel y gweithdrefnau hunanarfarnu a’r strategaethau asesu ar gyfer dysgu, tra bod eraill yn rhai sydd angen mwy o amser arnynt gael effaith gadarnhaol ar safonau’r disgyblion. Mae’r rheini yn cynnwys y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, a’r ffordd y mae’r athrawon yn herio’r disgyblion mwy abl i gyflawni hyd eithaf eu gallu.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod disgyblion o bob gallu yn gwneud cynnydd da, yn arbennig wrth ddefnyddio eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm

A2 Sicrhau bod yr athrawon yn gwneud y defnydd gorau o’r gweithdrefnau olrhain cynnydd i ddarparu heriau priodol i bob disgybl gyflawni hyd eithaf ei allu

A3 Gwella’r gweithdrefnau i adnabod a chefnogi disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mae medrau sylfaenol mwyafrif y disgyblion wrth gychwyn yn yr ysgol yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn siarad yn hyderus ac aeddfed gan ddefnyddio ystod eang o eirfa yn gywir. Maent yn gwrando'n dda, ac yn defnyddio geirfa gyfoethog mewn amrediad o gyd destunau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn adeiladu ar eu medrau llafar yn llwyddiannus. Mae ganddynt falchder mawr yn eu Cymreictod, ac maent yn siarad Cymraeg yn gwbl ddigymell a naturiol gyda'u cyfoedion. Gallant fynegi eu hunain yn aeddfed yn y Gymraeg a'r Saesneg, er enghraifft wrth fynegi barn am heriau sy'n wynebu pobl ddi-gartref dros y Nadolig. Mae safonau llafar disgyblion yn y ddwy iaith yn gryfder.

Mae medrau darllen rhan fwyaf o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn datblygu'n dda. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer yn ddarllenwyr hyderus. Maent yn defnyddio eu canfyddiadau i gyfoethogi eu gwaith, er enghraifft wrth gywain gwybodaeth am Affrica. Fodd bynnag, mae diffyg rhuglder ychydig o ddisgyblion yn cyfyngu llif eu darllen. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ddarllenwyr hyderus yn y ddwy iaith. Maent yn cywain gwybodaeth yn effeithiol, er enghraifft wrth ddarganfod ffeithiau am arlunwyr enwog.

Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu'n hyderus yn unol â'u hoed a'u gallu. Maent yn adeiladu llythrennau a geiriau syml yn effeithiol, ac mae ganddynt afael gynyddol gadarn ar ffurf. Mae'r rhan fwyaf yn sillafu geiriau cyfarwydd yn hyderus, ac yn creu darnau estynedig effeithiol, er enghraifft wrth gymharu bywyd plentyn yng Nghymru gyda phlentyn ym Motswana. Mae llawer yn atalnodi'n hyderus, gan amrywio brawddegau'n naturiol. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n estynedig i safon dda, ond nid yw ychydig ohonynt yn ysgrifennu mor hyderus mewn cyd-destunau gwahanol o ystyried eu gallu. Ar draws cyfnod allweddol 2 mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ysgrifennu yn y Gymraeg a Saesneg. Maent yn datblygu cystrawennau yn effeithiol ac yn mynegi eu hunain yn hyderus mewn ffurfiau cynyddol ymestynnol. Maent yn defnyddio modelau o ffurfiau yn aeddfed, gan efelychu'r gwaith yn greadigol. Mae llawer o'r disgyblion mwyaf abl yn creu darnau dychmygus o safon uchel. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd y maent yn creu portread o Hitler fel rhan o'u gwaith ar yr Ail Ryfel Byd.

Mae medrau rhifedd rhan fwyaf o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn datblygu'n dda. Maent yn cyfrifo'n hyderus ac yn adnabod siapau a thrin data'n effeithiol. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer yn cymhwyso'u medrau yn annibynnol, er enghraifft wrth bwyso gwrthrychau, ac wrth ddefnyddio gwahanol ddarnau o arian wrth chwarae rôl yn siop y dosbarth. Mae gan ran fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 ddealltwriaeth gadarn o strategaethau rhif a thrin siâp a data. Mae llawer yn cymhwyso'u gwaith rhif yn hyderus, er enghraifft wrth ddefnyddio bas data i graffu ar brisiau gwerthiant lluniau arlunwyr enwog. Fodd bynnag, ac eithrio'r prosiect cerddoriaeth, nid yw'r disgyblion yn defnyddio eu medrau rhifedd yn ddigon rheolaidd nac i'r un safon mewn amrediad llawn o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) rhan fwyaf o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn gadarn. Maent yn defnyddio amrediad o raglenni cyfrifiadurol aml-gyfrwng yn effeithiol. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio llechi electronig yn hyderus, er enghraifft wrth greu, addasu a chofnodi disgrifiadau o gymeriadau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio eu medrau TGCh yn fedrus. Maent yn defnyddio offer yn greadigol i greu cyflwyniad aml-gyfrwng yn deillio o'u gwaith ar chwedl Cantre'r Gwaelod, ac yn defnyddio rhaglen daenlen wrth gynllunio priodas Nant Gwrtheyrn.

Mae medrau meddwl y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn ar draws yr ysgol. Mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth dda o'r gwahanol strategaethau sydd ar waith yn y dosbarthiadau, a dealltwriaeth gadarn ynglŷn ag effaith y strategaethau hyn ar eu cynnydd.

Mae mwyafrif y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cadarn tuag at gyrraedd eu targedau. Fodd bynnag, nid yw ychydig iawn o'r disgyblion mwy abl bob amser yn cyflawni hyd eithaf eu gallu.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn dda iawn. Mae'r disgyblion yn ofalgar o'i gilydd ac yn dangos parch tuag at eraill. Mae'r rhan fwyaf yn dangos hyder ac aeddfedrwydd yn unol â'u hoed yn enwedig wrth gyfathrebu gydag ymwelwyr ac oedolion. Maent yn ystyriol ac yn uniaethu'n dda â'i gilydd ac mae naws gofalgar yn bodoli trwy'r ysgol. Enghraifft nodedig o hyn yw gwaith y Mêts Mawr, a'r Mêts Mawr Bach, sy'n rhoi cyfle i ddisgyblion gadw golwg ar eu cyfoedion rhag ofn bod rhywbeth yn eu pryderu.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, ac yn ymwybodol o bwysigrwydd cadw eu hunain yn ddiogel. Mae ganddynt wybodaeth gadarn am drefniadau diogelwch y wê ac maent yn gwybod beth i'w wneud petai rhywbeth yn eu poeni wrth weithio ar-lein. Mae bron pob disgybl yn ymwybodol o'r angen i wneud dewisiadau iach wrth fwyta ac yfed, ac maent yn awyddus i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol.

Mae disgyblion yn cymryd rhan lawn ym mywyd a gwaith yr ysgol. Maent yn barod i ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau arwain, fel bod yn aelodau o'r cyngor ysgol, y criw ailgylchu neu'r arweinwyr digidol. Mae'r modd y mae arweinwyr digidol yn cefnogi ei gilydd i godi safonau TGCh eu cyfoedion ar draws yr ysgol yn elfen gref o'u gwaith.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gweithio'n hyderus ac effeithiol yn annibynnol, mewn parau neu mewn grwpiau. Mae eu dealltwriaeth o sut i wella eu gwaith yn datblygu'n briodol. Mae'r rhan fwyaf yn parchu cyfraniadau pobl eraill yn ystyrlon ac aeddfed. Maent yn gwrando'n astud ar ei gilydd, ac yn barod iawn i rannu syniadau, mynegi barn ac ystyried safbwyntiau gwahanol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn arddangos agwedd gadarnhaol tuag at eu gwaith ac maent yn frwdfrydig ac yn dyfalbarhau yn dda. Ar draws yr ysgol mae disgyblion yn ymateb yn fwriadus i gyfleoedd i gyfrannu at y trywyddau nesaf yn eu dysgu ac i gymryd rôl fwy blaenllaw wrth lywio eu dysgu eu hunain.

Mae'r disgyblion yn datblygu'n dda fel dinasyddion cydwybodol trwy godi arian ar gyfer elusennau amrywiol fel yr Ambiwlans Awyr. Mae mwyafrif y disgyblion yn cymryd rhan yn llwyddiannus mewn gweithgareddau fel cystadlaethau chwaraeon ac eisteddfodau, sy'n datblygu eu hunanhyder a'u lles yn dda.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn dda. Mae'r athrawon yn cynllunio'n effeithiol i sicrhau amrediad llawn a chyfoethog o brofiadau dysgu eang i ddisgyblion ar draws yr ysgol. Maent yn darparu cefnogaeth effeithiol iddynt sydd wedi ei dargedu'n ofalus i sicrhau bod y rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd priodol.

Mae gan yr ysgol amrediad da o gynlluniau gwaith effeithiol sy'n sicrhau bod meysydd dysgu'r cyfnod sylfaen, gofynion y cwricwlwm cenedlaethol ac anghenion y maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol yn derbyn sylw addas. Mae'r cynlluniau'n darparu strwythur cadarn ar gyfer datblygu'r cwricwlwm ar draws yr ysgol yn y tymor hir, canol a byr ac yn ystyried mwyafrif o ofynion y fframwaith llythrennedd a rhifedd yn briodol. Mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd symbylus i ddisgyblion ddatblygu eu medrau mewn amrediad eang o gyd-destunau. Mae'r strwythur yn briodol i ddatblygu medrau llythrennedd a TGCh y disgyblion. Fodd bynnag, cyfyng yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd yn llawn mewn ystod o wahanol gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn arddangos medrau rhif i'r un safon mewn cyd-destunau eraill ag y dangosant yn eu gwersi mathemateg.

Mae'r ysgol yn sicrhau cyfleoedd cyfoethog i ddatblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o ddiwylliant yr ardal trwy leoli llawer o weithgareddau yn y cyd-destun lleol fel astudio arlunwyr lleol Cymreig. Mae hon yn nodwedd amlwg o waith yr ysgol.

Mae rhan fwyaf yr athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o amrywiaeth o ddulliau addysgu sy'n sicrhau bod y disgyblion yn ymroi'n llawn i'w gwaith. Mae gan yr athrawon ddealltwriaeth gadarn o ofynion y cwricwlwm, ac maent yn darparu tasgau a heriau sy'n cymell diddordeb a brwdfrydedd y disgyblion. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn ymroi'n llawn i'w tasgau yn ystod eu gwersi. Fodd bynnag nid yw tasgau bob amser wedi eu cynllunio'n ddigon manwl i ymateb yn llawn i anghenion penodol ychydig o ddisgyblion mwy galluog i sicrhau eu bod yn derbyn digon o her. O ganlyniad, nid yw ychydig o ddisgyblion mwy abl yn datblygu hyd eithaf eu gallu.

Ar draws yr ysgol, mae'r staff yn darparu model ieithyddol effeithiol iawn i'r disgyblion. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu medrau iaith. Yn y cyfnod sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2, mae'r athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o weithgareddau unigol, pâr a grŵp er mwyn cyfoethogi'r profiadau dysgu. Maent yn defnyddio technegau holi'n fedrus i annog y disgyblion i feddwl yn annibynnol ac i fynegi barn wrth drafod a gwerthuso gwaith arlunwyr enwog, er enghraifft.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi gwreiddio'n dda yn yr ysgol. Mae'r athrawon a'r staff cynorthwyol yn sicrhau eu bod yn rhannu nodau a meini prawf llwyddiant yn gyson gyda'r disgyblion mewn gwersi. Mae'r gwaith diweddar ar ddatblygu 'meddylfryd o dwf' yn cael ei weithredu'n effeithiol gan y staff. Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais cadarn ar sicrhau bod gan y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd dyfalbarhau â'u tasgau.

Mae safon yr adborth a ddarperir i ddisgyblion yn gadarn. Mae'r athrawon yn darparu adborth cryno ac effeithiol sydd, ar y cyfan, yn galluogi disgyblion i ddeall yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i ddatblygu eu gwaith ymhellach. Mae'r athrawon yn sicrhau bod targedau disgyblion yn cael eu diweddaru'n gyson er mwyn ymateb yn fanwl i'w anghenion. Lle mae'r arfer hon gryfaf, darperir cyfleoedd i ddisgyblion fyfyrio ar y camau nesaf yn eu dysgu, ac ailddrafftio rhannau o'u gwaith er mwyn ei ddatblygu ymhellach. Fodd bynnag, mae gorddefnydd o daflenni gwaith ar adegau yn arafu cynnydd ychydig iawn o ddisgyblion.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol ac angen gwella**

Mae'r diwylliant cadarn o barch, cynhwysiad a thegwch sy'n bodoli yn yr ysgol yn hybu ei nodau'n effeithiol. Caiff hyn ei atgyfnerthu'n llwyddiannus yn y profiadau pwrpasol a ddarperir i'r disgyblion, gan gynnwys gweithgareddau elusennol. Mae hyn yn annog y disgyblion i ddatblygu'n ddinasyddion hyderus a meddylgar. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau sy'n ymwneud â thoiledau'r bechgyn yn briodol ac mae hyn yn cael effaith negyddol ar hunanhyder ychydig o'r rhai iau.

Mae gan yr ysgol drefniadau addas ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae addysg ar gyfer datblygu cynaliadwyedd yn briodol ac mae'r staff yn ei hyrwyddo drwy waith y criw ailgylchu a themâu'r cwricwlwm, sydd wedi eu dewis yn benodol. Trwy amrywiaeth o weithgareddau, gwasanaethau o gyd-addoli a myfyrio, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu'n unigolion moesol a gwybodus. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo datblygiad ysbrydol a dealltwriaeth y disgyblion o gredoau a thraddodiadau byd-eang yn effeithiol. Enghraifft nodedig o hyn yw'r ffordd mae disgyblion y cyfnod sylfaen yn trafod materion ymestynnol a sensitif fel apartheid yn Affrica mewn modd aeddfed. O ganlyniad, mae gan ran fwyaf y disgyblion agweddau cadarnhaol a dealltwriaeth gymwys o bwysigrwydd dathlu a pharchu diwylliannau gwahanol, ac ymwybyddiaeth gadarn o bwysigrwydd gwrthsefyll hiliaeth.

Ar draws yr ysgol, mae cynlluniau addysg bersonol a chymdeithasol yn cael eu gweithredu'n effeithiol ac yn cael dylanwad cadarnhaol ar ymddygiad, empathi a datblygiad emosiynol bron pob disgybl.

Mae'r ysgol wedi bod yn rhan o brosiect Ysgolion Creadigol Arweiniol gyda ffocws penodol ar ddatblygu medrau rhifedd trwy gerddoriaeth. Effaith hyn yw bod y disgyblion sydd ynghlwm â'r prosiect yn dangos cynnydd priodol yn eu safonau rhifedd yng nghyd-destun y prosiect, er nid cymaint mewn pynciau eraill. Rhoddir cyfleoedd eang i'r disgyblion ddatblygu eu medrau creadigol a diwylliannol trwy berfformio mewn amrywiaeth o gyflwyniadau a chyngherddau o fewn yr ysgol ac yn y gymuned ehangach. Mae hyn yn datblygu eu hunanhyder a'u medrau cydweithio yn effeithiol.

Mae'r ysgol wrthi'n addasu ei threfniadau ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol i gyfateb i'r arweiniad cyfredol. Mae gan yr ysgol bellach weithdrefnau priodol a threfnus i adnabod anghenion disgyblion. Fodd bynnag, dros gyfnod, nid yw'r gweithdrefnau hyn wedi bod yn ddigon cadarn. Nid yw cynnydd y garfan hon wedi cael ei olrhain na'i werthuso'n ddigon manwl i adnabod a mesur cynnydd, nac i gynllunio ar gyfer y camau nesaf yn eu datblygiad. Mae gan y disgyblion hyn bellach

gynlluniau datblygu unigol sy'n cynnwys mewnbwn gan y disgybl a'r rhiant, ac ar y cyfan, mae'r targedau'n addas. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau hyn eto wedi gwreiddio.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o asiantaethau allanol i gefnogi anghenion disgyblion. Fe gaiff cynorthwywyr dysgu eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi disgyblion trwy weithredu amrywiaeth o raglenni ymyrraeth mewn meysydd fel rhifedd a llythrennedd. O ganlyniad, mae llawer o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da tuag at gyflawni'r targedau unigol a osodir ar eu cyfer. Mae rhyngberthynas gefnogol iawn yn bodoli rhwng y cynorthwywyr a'r disgyblion sy'n cyfrannu sylweddol at ethos gofalgar yr ysgol a'r ffordd y maent yn ymddiried yn ei gilydd.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau priodol sydd wedi eu mireinio'n ddiweddar i olrhain cynnydd disgyblion. Defnyddir amrediad addas o asesiadau mewnol a chenedlaethol i asesu cyflawniad disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn gwneud defnydd digon effeithiol o'r canfyddiadau i sicrhau her briodol ar gyfer ychydig o ddisgyblion, yn enwedig yn rhai mwy abl. Ar y cyfan, mae'r ysgol yn gosod targedau priodol i'w disgyblion, ond nid yw eu cynnydd tuag at eu cyrraedd yn cael ei olrhain yn ddigon manwl i adnabod y cerrig milltir ar hyd y daith a bwydo'r camau nesaf yn y cynllunio.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth gadarn a chreadigol sy'n seiliedig ar greu ysgol hapus lle mae disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu i'w llawn botensial. Mae'r pennaeth yn cyfleu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus iawn gyda'r staff, y llywodraethwyr, y disgyblion a'r rhieni. O ganlyniad, mae gan yr arweinwyr eraill, y staff a'r llywodraethwyr ymwybyddiaeth glir o'i disgwyliadau, ac o safon cyflawniad disgyblion. Mae gan y pennaeth sgiliau arwain o safon uchel iawn. Mewn byr amser, mae wedi gosod nifer o strategaethau effeithiol iawn ar waith sydd wedi cyfoethogi'r ddarpariaeth, gwella safon yr addysgu a datblygu meddylfryd o dwf ymysg staff yr ysgol. Mae hyn yn sicrhau ymrwymiad cryf i weithredu'n effeithiol er mwyn codi safonau a hybu lles disgyblion. Mae strwythur staffio'r ysgol bellach yn galluogi'r holl athrawon a'r staff cynorthwyol i deimlo perchnogaeth dros bolisïau a dulliau gweithredu'r ysgol.

O dan arweiniad effeithiol y pennaeth cyfredol, mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o berfformiad yr ysgol. Mae ganddynt gyfrifoldeb am agweddau penodol ar flaenoriaethau cyfredol. Trwy gydweithio'n agos gydag arweinwyr, a thrwy gynnal sesiynau arsylwi ar wersi a chraffu ar lyfrau, maent bellach yn chware rôl fwy gweithredol ym mhrosesau monitro'r ysgol. Maent yn defnyddio canfyddiadau'r gweithdrefnau hyn yn effeithiol er mwyn gwneud penderfyniadau ac i osod cyfeiriad strategol clir i waith yr ysgol.

Mae hunanarfarniad yr ysgol yn ddogfen gynhwysfawr a thrylwyr iawn sy'n rhoi darlun cywir o'i sefyllfa. O ganlyniad i'r gweithdrefnau gwerthuso manwl a chadarn, mae gan arweinwyr bellach wybodaeth drylwyr am berfformiad yr ysgol ac mae wedi cael effaith gadarnhaol ar yr agweddau o'r ddarpariaeth yr oedd angen eu gwella. Trwy fonitro gwaith disgyblion, adnabuwyd yr angen i sicrhau tasgau gwahaniaethol i ymateb i anghenion pob disgybl, er enghraifft. Er mai gweithdrefnau diweddar yw'r rhain, maent yn dechrau cael effaith ar gyflawniad llawer o ddisgyblion.

Mae blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol yn deillio'n uniongyrchol o'r agweddau i'w datblygu a nodwyd yn yr adroddiad hunanarfarnu ac yn canolbwyntio'n benodol ar godi safonau. Mae'r cynllun yn cynnwys blaenoriaethau clir iawn ar gyfer gwella, ynghyd â chamau gweithredu, amserlen, cyfrifoldebau staff, a gofynion cyllidol. Mae arweinwyr yr ysgol yn cwblhau adolygiadau manwl o'r cynnydd mewn perthynas â blaenoriaethau'r cynllun blaenorol yn rheolaidd.

Un o gryfderau'r ysgol yw'r modd mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i'r holl staff ddatblygu yn broffesiynol. O ganlyniad, mae staff yn cymryd rôl arweiniol i ddatblygu agweddau penodol ar y cwricwlwm a hyfforddi staff. Trwy weithdrefnau gwella ansawdd effeithiol iawn a'r cynllun 'meddylfryd o dwf', mae bellach gan athrawon ddisgwyliadau uwch ohonynt eu hunain a'r disgyblion. Mae'r ysgol yn ymateb yn llwyddiannus i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Enghraifft dda o hyn yw'r modd y mae'r ysgol wedi mynd i'r afael â'r fframwaith cymhwysedd digidol. Datblygir hyn ymhellach drwy gydweithio bwriadus ag ysgolion y dalgylch. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau TGCh disgyblion a staff.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol i fonitro'r gwariant. Gwneir defnydd effeithiol o'r adnoddau sydd ar gael i gyfoethogi'r cwricwlwm ac mae'r staff yn cydweithio'n effeithiol iawn i greu amgylchedd ddysgu ysgogol sy'n ennyn diddordeb y disgyblion. Mae penderfyniadau gwariant yn cysylltu'n agos â'r blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae'r ysgol yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn ddarbodus i sicrhau darpariaeth briodol ac i godi safonau yn y ddau gyfnod allweddol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 08/02/2018